Rhian Davies

Pam ddylai aelodau CGGC bleidleisio drosof i fod yn ymddiriedolwr?

Rwy'n gobeithio cael fy ethol am ail dymor, ac ochr yn ochr â'm cyd-ymddiriedolwyr, byddem yn gwerthfawrogi'r cyfle i barhau i gyfrannu at genhadaeth CGGC 'i fod yn gatalydd dros newid positif drwy gysylltu, galluogi a dylanwadu' yn fawr iawn'.

Fel Prif Weithredwr Anabledd Cymru, rwy'n dod â mewnwelediad i'r heriau o redeg mudiad ymbarél cenedlaethol sy'n ymgyrchu dros newid polisïau cenedlaethol ar gydraddoldeb i bobl anabl a dylanwadu arnynt. Rwy'n ymwneud yn weithredol â'r Tasglu Hawliau Pobl Anabl a fi oedd cadeirydd ei Weithgor Byw'n Annibynnol (Gofal Cymdeithasol).

Rwyf wedi bod yn ymddiriedolwr gydag CGGC ers 2021 a chyda Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod Cymru (RhCM Cymru) rhwng 2017 a 2023. Rwy'n dod â phrofiad helaeth i rôl y Bwrdd o lywio'r cyfeiriad strategol a rhoi arweiniad i'r tîm uwch mewn adegau heriol, gan gyflwyno newid sylweddol.

Fel Cadeirydd pwyllgor newydd-sefydledig CGGC, y Pwyllgor Pobl a Chydnabyddiaeth Ariannol, bûm yn aelod o'r panel recriwtio ar gyfer y Prif Weithredwr newydd. Rwyf wedi cydweithio ag uwch-reolwyr, cyd-ymddiriedolwyr ac aelodau allanol i ddatblygu rôl y pwyllgor a chefnogi rhaglen newid CGGC er budd y mudiad a'r aelodaeth.

Os caf fy ethol, byddaf yn parhau i fynd ati'n weithredol i gefnogi datblygiad parhaus CGGC fel mudiad cynhwysol, sy'n galluogi mudiadau gwirfoddol yng Nghymru i wneud mwy o wahaniaeth gyda'i gilydd.